Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cygnor Bwrdeistref Sirol

# AGENDA

***G Ŵ Y S  Y  C Y N G O R***

***At holl aelodau'r cyngor***

***Rydych dan wŷs trwy hyn i ddod i***

***GYFARFOD Y CYNGOR***

***i'w gynnal am 2.00 pm***

***Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2019***

***yn***

***Siambr y Cyngor, Canolfan Ddinesig, Port Talbot***

*Bydd Caplan y Maer yn dweud gweddi cyn i'r cyfarfod ddechrau.*

**--- A G E N D A ---**

**RHAN A**

1. *Cyhoeddiadau'r Maer.*

2. *Datganiadau o fudd*

3. *Cyflwyniad gan y Prif Swyddog Tân*

4. *Cofnodion Cyfarfod Blaenorol y Cyngor (Blwyddyn Ddinesig 2019/20)* (Tudalennau 5 - 6)
   9 Hydref 2019

**RHAN B**

5. *Cyflwyniad gan SAC ar yr Adroddiad Gwelliant Blynyddol Drafft* (Tudalennau 7 - 58)

6. *Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol* (Tudalennau 59 - 106)

7. *Cynllun Blynyddol Cyfiawnder Ieuenctid ac Ymyrryd yn Gynnar Castell-nedd Port Talbot 2019-20* (Tudalennau 107 - 176)
Cymeradwywyd yr adroddiad hwn i'r cyngor gan Bwrdd Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Lles y Cabinet ar 17 Hydref 2019

8. *Rheolau Gweithdrefnau Contractau* (Tudalennau 177 - 232)

9. *Newidiadau i Aelodaeth Pwyllgorau a Chyrff Allanol* (Tudalennau 233 - 236)

**<u>RHAN C</u>**

10. *Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol y Cabinet a Byrddau'r Cabinet* (Tudalennau 237 - 272)

**<u>RHAN D</u>**

11. Hysbysiad o Gynnig dan Adran 10 o Ran 4 (Rheolau Gweithdrefnau) Cyfansoddiad y Cyngor a gynigiwyd gan Y Cynghorydd Paddison ac a eiliwyd gan y Cynghorydd Llewelyn.

Defnyddir tân gwyllt gan bobl trwy gydol y flwyddyn i nodi digwyddiadau gwahanol. Er bod rhai pobl yn eu mwynhau, gallant achosi problemau sylweddol a chodi ofn ar bobl eraill ac anifeiliaid. Gallant ddychryn llawer o anifeiliaid ac achosi gofid iddynt (gan gynnwys anifeiliaid anwes, da byw a bywyd gwyllt). Mae'r anifeiliaid yr effeithir arnynt yn dioddef o ofid seicolegol a gallant anafu eu hunain - weithiau'n ddifrifol iawn - trwy geisio rhedeg i ffwrdd neu guddio rhag y sŵn.
Mae'r canlynol yn bryderon sylweddol:

- Gall y synau anrhagweladwy, swnllyd ac uchel o ran dwysedd y mae llawer o dân gwyllt yn eu gwneud godi ofn;
- Gall malurion tân gwyllt ar y tir beryglu anifeiliaid, megis ceffylau a da byw
- Gall natur tymor byr sŵn tân gwyllt ei wneud yn anodd i'r heddlu neu swyddogion yr awdurdod lleol ddod o hyd i'r lleoliad er mwyn gweithredu

- Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith perchnogion anifeiliaid o ffobiâu tân gwyllt.

Mae angen ymchwilio ymhellach i ddeall effaith y sŵn ar anifeiliaid yn iawn a gellir gwneud llawer o bethau i wella'r sefyllfa ar gyfer anifeiliaid a phobl trwy wneud y canlynol:

- Cyflwyno cyfyngiad ar ddefnydd cyhoeddus o dân gwyllt ar ddyddiadau ac amserau penodol;
- Cynyddu cyfyngiadau ar werthiant tân gwyllt yn y cyfnod cyn noson tân gwyllt;
- Lleihau uchafswm lefelau sŵn tân gwyllt sy'n cael eu gwerthu i'r cyhoedd, gan sicrhau eu bod yn cael eu labelu'n gywir;
- Trwyddedu pob arddangosfa tân gwyllt gyhoeddus - a sicrhau eu bod yn cael eu hysbysebu'n well i'r cyhoedd.

**Mae'r cyngor hwn wedi penderfynu ar y canlynol:**

- mynnu bod pob arddangosfa tân gwyllt a gynhelir ar dir yr awdurdod lleol ac/neu sy'n amodol ar ganiatâd gan yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysebu ymhell cyn dyddiad y digwyddiad i alluogi perchnogion i ragofalu am eu hanifeiliaid a phobl ddiamddiffyn
- mynd ati i hyrwyddo ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus am effaith tân gwyllt ar les anifeiliaid a phobl ddiamddiffyn - gan gynnwys y rhagofalon y gellir eu cymryd i liniaru risgiau
- ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i'w hannog i ddefnyddio unrhyw offer sydd ganddi i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar anifeiliaid a phobl ddiamddiffyn mewn perthynas ag arddangosfeydd tân gwyllt
- ysgrifennu at Lywodraeth y DU i'w hannog i gyflwyno deddfwriaeth i leihau uchafswm lefelau sŵn tân gwyllt i 90dB ar gyfer y rheini sy'n cael eu gwerthu i'r cyhoedd am arddangosfeydd preifat
- annog cyflenwyr tân gwyllt lleol i werthu tân gwyllt 'tawelach' ar gyfer arddangosfeydd cyhoeddus.

12. Cwestiynau gan Aelodau, â Hysbysiad, dan Reol 9.2 Rheolau Gweithdrefnau'r Cyngor

13. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag adran 100B (4) (b) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

***Prif Weithredwr***

*CANOLFAN DDINESIG,*
*PORT TALBOT*

***Dydd Iau, 21 Tachwedd 2019***